# Y Casglwr

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd*

**Cymdeithas Bob Owen**
*Tâl aelodaeth*
*£3 y flwyddyn i'r Ysgrifennydd.*

**SWYDDOGION**

*Llywydd:*
*Dr. E.D. Jones*
*Cadeirydd:*
*D. Tecwyn Lloyd*
*Ysgrifennydd:*
*Richard H. Lewis*
*40 Maes Ceiro,*
*Bow Street, Dyfed.*
*(Aberystwyth 828102)*
*Trysorydd a Threfnydd Busnes:*
*John Dilwyn Williams,*
*Glan Ffrwd, Pentre-uchaf,*
*Pwllheli, Gwynedd.*
*(Pwllheli 613480)*
*Golygydd:*
*John Roberts Williams,*
*18 Minffordd, Llanrug, Caernarfon.*
*(Caernarfon 3593)*
**Cyhoeddir Y Casglwr**
**gyda chymorth ariannol**
**Cyngor Celfyddydau Cymru.**


## YN EISIAU

*Y Bedyddiwr, 1847-1868.*
*John Griffiths, Perthi, Gaerwen, Ynys Môn, Gwynedd. LL60 6DD*

*Thomas Roberts (Llwynhudol): The Welsh Interpreter. Llundain, Samuel Leigh, 1831.*
*Anne Beale: Rose Merfyn: a tale of the Rebecca Riots. Llundain, Hodder a Stoughton, 1916 (neu unrhyw argraffiad arall).*
*Howard Godfrey, 7 South Parade, Croft on Tees, Darlington. Ffôn (0325) 720795.*

*Y Traethodydd: Gorffennaf 1931 (380), Ebrill 1934 (391), Gorffennaf 1934 (392), Ebrill 1947 (443), Hydref 1952 (465) a Gorffennaf 1980 (576)*
*Gwyddor Gwlad, rhif 1.*
*Mrs Arianwen Parry, Plas Gwyn, Trefriw, Llanrwst, Gwynedd. LL27 0RF. Ffôn: (0492) 640561*

*Rhestr Testunau Eisteddfod Genedlaethol Cymru am y blynyddoedd 1900-19, 1921-24, 1926-27, 1929-32, 1936-49, 1953-54, 1957, 1961-67, 1967-71, 1973 a 1977-83.*
*Set gyflawn (am bris rhesymol) o Y Cerddor Cymreig a'r Cerddor gan gynnwys Y Cerddor Newydd os yn bosibl.*
*Robert Nicholls, 45 Bridge Street, Aberystwyth, Dyfed. Ffôn: Aberystwyth 624384.*

## AR WERTH

*Taliesin, Cyfrol 56: Gorffennaf 1986, £2;*
*Planet, Cyfrol 1 a 4 a 5/6 - £1 yr un.*
*Ar gael o Rhuthun 2179.*



**D. TECWYN LLOYD a pharadocsau, rhyfeddodau, dirgelion**

# Prifwyliau'r dyddiau gynt

MAE'N DIGWYDD bod gennyf dri o hen raglenni'r Eisteddfod Genedlaethol, sef un Wrecsam, 1912; Aberystwyth, 1916 a Birkenhead, 1917 ac o dro i dro byddaf yn simio drwyddynt, yn bennaf er mwyn gweld mor wahanol, mor syfrdanol wahanol oedd y 'Genedlaethol' yn ystod y blynyddoedd hyn rhagor yr un a fu yn Llanrwst eleni, sef 1989.

Yn un peth, mae'r hen raglenni hyn yn hael eu darluniau ac o'r herwydd, maent erbyn heddiw yn archif neu albwm dra diddorol o luniau enwogion dechrau'r ganrif hon; rhai lleol yn fwy na rhai cenedlaethol, cadeiryddion ac is-gadeiryddion ac ysgrifenyddion is-bwyllgorau, pob un ohonynt wedi gwisgo dillad parch at yr achlysur.

Dyma Raglen y Dydd, Wrecsam: yma, fe gewch lun o I.D. Hooson ifanc yn ei goler starts uchel a chaled ac yn arddel mwstas 'pervivian' (sef un a phigau) sylweddol (t.57) a throellen o wallt ar ei dalcen. Gŵr arall nid anhysbys yn ei ddydd yw W.M. Roberts, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Ŵyl. Am lawer blwyddyn, ef oedd Rheolwr Cyffredinol cwmni Hughes a'i Fab pan oedd hwnnw yn ei fri yn Wrecsam ac ef a fu'n dewis a chyfarwyddo cyhoeddi cannoedd lawer o lyfrau'r hen ffyrm, heb sôn am ei cherddoriaeth.

A sôn am gerddoriaeth: Cadeirydd y Pwyllgor hwnnw oedd Peter Williams o Neuadd Brymbo; rheolwr gwaith haearn a dur enwog y pentre hwnnw ac un y clywais fy nhaid yn ei fawrygu fel gŵr cyfiawn a theg pan oedd ef, yn ŵr priod ifanc, yn dechrau byw yng nghysgod y ffwrneisiau.

Erbyn 1912, rhaid fod Peter Williams wedi croesi oed yr addewid.

Rhoddir tudalen gyfan i un llun, y mwyaf annisgwyl, sef y 'President of the Eisteddfod General Committee'. Hwnnw oedd A.G. Edwards, archesgob cyntaf Cymru yn ddiweddarach a gŵr, yn ôl pob hanes, a fynnai 'fod yn Sais'.

Hwn, pan oedd yn Brifathro Ysgol Breswyl Llanymddyfri a ŵyrdrôdd y sefydliad hwnnw a fwriadwyd ac a waddolwyd i fod yn ysgol Gymraeg, i fod yn un gwbl Saesneg. Mesur chwerw o ddallineb ein cyndeidiau yn 1912 oedd gwneud hwn o bawb yn Benllywydd y Brifwyl. Ond oes felly oedd hi.

* * * *

DYMA'R dyddiau pan oedd mwstas yn y ffasiwn i ddynion a barnu oddi wrth y lluniau hyn. Ymhlith arwisgwyr y cnydau mwyaf toreithiog cawn Jacob Edwards, canwr penillion, a Wilfred Jones, arweinydd Côr yr Eisteddfod, mae ei gnwd helaethlawn ef yn rhagflaenu'r mwstasau cyrn-beic y bu'r Awyrlu yn eu meithrin yn ystod y rhyfel dwaetha'; yn wir, mae'n nes i raddfa cyrn teirw Ucheldiroedd yr Alban.

Bargodol deilwng hefyd yw cnwd E.D. Jones, yr Ysg. Cyffredinol, a'r Cynghorydd Jarman, is-gadeirydd Pwyllgor Hysbysebu a Threfniadaeth Rheilffyrdd.

Dyna oedd ffasiwn y dydd, ond trown at bethau eraill mwy sylweddol. Yn 1912, a barnu oddi wrth y gofod a roddir iddi, 'roedd yr Orsedd yn wedd bwysicach i'r Eisteddfod nag odid unrhyw un arall.

Dyfed oedd yr Archdderwydd a'r agosaf ato yn yr hierarchaeth oedd Cadvan; Bardd yr Orsedd oedd ef a cheir llun ohono ar t.87. Am ei ben, mae math o goron ac yn ei law chwith mae sgrôl, amlinelliad o ryw epig neu bryddest decini, 'roedd yn hynod am wneud pethau felly.

Ond am ei wddf a thros ei ysgwyddau mae ei brif ogoniant; yno, yn hongian wrth ddwy gadwen ac wrth binnau cau rhyngddynt, mae tuag un ar bymtheg o fedalau crynion o bob maint ('gongs' yn Saesneg amharchus heddiw!). Rhaid fod y dyn yn cymryd cryn amser i'w gwisgo ar fore seremoni yr Orsedd. Mwy na hyn ni bu gan Hermann Goering erioed fwy.

Trysorydd yr Orsedd oedd gŵr a elwid Gwynedd yng Ngorsedd ond Tomos Edwards tu allan iddi; bu farw yn 1924. Yn y llun sydd ohono yma, ymddengys mewn gŵn academaidd, cap a chwcwll gŵr gradd. Hyd y gwn, nid oedd na bardd na dyn rhyddiaith nac ychwaith, petai waeth am hynny, yn ŵr gradd.

* * * *

YR ADEG yma, mae rhaglenni dydd yr Eisteddfod yn cynnwys rhestrau hir o ffugenwau aelodau'r Orsedd. Soniais am rai ohonynt mewn ysgrif arall, ond y tro hwn rhengoedd y sefydliad a'u swyddogaeth a'u teitlau sy'n peri peth ansicrwydd imi, canys erbyn heddiw mae rhai o'r teitlau wedi diflannu. Yn arbennig, un. Y mwyaf dyrys oedd y swydd a elwid yn 'Gwyddon Tir Iarll'. Hyd y sylwais, dim ond un Gwyddon a godwyd i'r swydd hon am flynyddoedd, erioed ond odid, a gŵr o'r ffugenw Morien oedd hwnnw.

Mae'n amlwg nad oedd Tir Iarll yn fagwrfa epilgar i Wyddoniaid (neu Wyddonod). Ond beth oedd ei swyddogaeth, i beth yr oedd yn dda? Pa gymwysterau oedd yn anhepgor i'r swydd?

Owen Morgan oedd gwir enw Morien ac un o Bontypridd ydoedd yn ôl y Cymru 'coch' lle gwelir ffrwyth ei wyddonaeth (nid 'gwyddoniaeth' sylwer). Mae'n ffrwyth rhyfeddol.

Llawer blwyddyn yn ôl, bûm i a dau o'm ffrindiau yng ngholeg Bangor yn dyfeisio iaith a gwareiddiad nad yw'n bod, a'r bwriad oedd tynnu coes trwy roi darlith hollol sobr ar y peth ac yn wir, fe wnaed hynny unwaith neu ddwy yn eitha' llwyddiannus.

Erimot oedd enw'r gwareiddiad, ond stori arall yw honno, a'r rheswm dros ei chrybwyll yma yw y gallai dyn feddwl mai rhyw bwrpas tebyg oedd gan Wyddon Tir Iarll mewn golwg, sef tynnu coes ysgolheigion syber fel Syr John Morris-Jones a oedd, ar y pryd, yn rhoi deinameit o dan fytholeg Gorseddol Iolo Morganwg a'i chwalu i'r pedwar gwynt.

Ond na, nid bod yn groesan i lys yr Orsedd a wnâi Morien; 'roedd y dyn yn llwyr o ddifri, fel y gwelwn oddi wrth ei gyfeiriadau gwawdlyd at J.M-J.

* * * *

O RAN hwyl, mae'n werth dyfynnu rhai o'i bethau. Yn ôl y Gwyddon, peth Cymreig oedd Derwyddaeth ac yr oedd wedi ymledu cyn belled â Sgandinafia i'r gogledd a glannau'r Ganges i gyfeiriad arall.

Rywsut hefyd, yr oedd wedi cymysgu â'r chwedlau ('hanes' i'r Gwyddon) Israelaidd sydd yn yr Hen Destament ac hefyd â chrefyddau carlamus eraill o'r Dwyrain Canol.

Er enghraifft, dyna'r Bala ym Mhenllyn: enw wedi tarddu o Baal-le yw hwn ebe'r Gwyddon am fod y trigolion a oedd yno yn y cyn-oesoedd a chyn Thomas Charles a John Evans (Senex) yn addoli Baal.

Gwrthrych addoliad arall yn y cylch oedd Llyn Tegid: yr Haul wedi ei bersonoli rywsut oedd hwnnw (er mai dŵr ydyw), sef 'Teg-i-gyd'.

A phwy fuasai'n meddwl mai gwreiddyn Perseg sydd i'r gair 'moch', sef fel hyn: yr un peth yw 'moch' â 'meichiau', sef rhywun doeth a'r un gair yw hwnnw â'r Perseg 'mag' a 'magi', sef doethion fel y rhai a ddaeth gynt o'r Dwyrain! Mae gan T.S. Eliot gerdd amdanynt, 'Journey of the Magi'. Moch-ras decini!

Wedyn, mae pob Archdderwydd yn gweiddi 'Gwaedd uwch Adwaedd' wrth gadeirio a choroni bardd. Cawr nerthol o'r enw 'Y waedd' yng Nghôr y Cewri (Stonehenge) gynt oedd hwn, medd y Gwyddon. Un arall mae'n debyg oedd Ad-waedd, er nad oes manylion am hynny.

Tybed am ba hyd y parhaodd

i dud. 3